**Yn dilyn y cyfathrebiad a gyhoeddwyd ynghylch y Canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), rydym wedi derbyn rhai cwestiynau ynghylch y newidiadau - gweler y Cwestiynau Cyffredin isod.**

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau nad ymdrinnir â hwy isod, cysylltwch â ni am gymorth pellach.**

**CWESTIWN. A oes gan feddygon teulu locwm fynediad i indemniad o dan y Cynllun yn ôl disgresiwn ar gyfer GMPI ar gyfer pob sifft a weithiwyd cyn 8 Rhagfyr 2020?**

**Ateb.** Mae sefyllfa GMPI ar gyfer sifftiau a weithiwyd cyn 8 Rhagfyr 2020 yn unol â'r Canllawiau blaenorol - h.y. mae angen i bob meddyg teulu locwm sy'n gwneud gwaith locwm yng Nghymru fod ar Gofrestr Locwm Cymru Gyfan (AWLR). Os ydynt wedi'u cofrestru ar yr AWLR mae sifftiau'n gymwys ar gyfer y cynllun yn ôl disgresiwn ar gyfer GMPI.

**C. A oes angen i ni nodi Sifftiau Allanol (sifftiau a archebwyd y tu allan i LHW) cyn 8 Rhagfyr 2020 i gael mynediad at indemniad o dan y Cynllun yn ôl disgresiwn ar gyfer GMPI?**

**A.** Nac oes - Ni fydd angen nodi'r sifftiau allanol cyn i'r canllawiau wedi'u diweddaru gael eu rhyddhau ar 8 Rhagfyr 2020.

**CWESTIWN. Pryd mae'r gofynion newydd yn Atodiad B yn cychwyn?**

**Ateb.**

**Sifftiau wedi'u harchebu trwy Locum Hub Wales**
Bydd pob sifft a archebir trwy Locum Hub Wales yn cael ei nodi yn y system ac nid oes angen i'r meddyg teulu locwm wneud unrhyw beth pellach.

**Sifftiau Allanol**
- Rhaid nodi pob sifft allan a weithir o 1 Chwefror 2021 yn LHW
- Bydd y sifftiau a weithir rhwng 8 Rhagfyr 2020 a 31 Ionawr 2021 mewn Cyfnod Gras ac nid oes angen eu nodi yn LHW
- Bydd pob sifft yn y Cyfnod Gras yn gymwys ar gyfer y GMPI yn ôl disgresiwn
- I ymgyfarwyddo â'r swyddogaethau ac i ddatblygu arferion da, beth am nodi'ch sifftiau allanol nawr?

**CWESTIWN. A oes dyddiad cau ar gyfer nodi sifftiau yn ôl-weithredol h.y. a fyddaf yn cael fy yswirio ar gyfer sifft a weithiwyd 60 diwrnod yn ôl os byddaf yn ei nodi nawr?**
**A.** O 1 Chwefror 2021 bydd angen nodi'r holl sifftiau a archebir y tu allan i Locum Hub Wales yn y system cyn yr 28ain diwrnod ar ôl iddi gael ei gweithio. Gellir eu nodi ymlaen llaw hefyd. Os cofnodir sifft ar ôl yr 28ain diwrnod, bydd yn dal i gael ei derbyn yn y system ond bydd yn dangos fel sifft a nodwyd yn hwyr. Lle nad oes unrhyw sifftiau meddygon teulu locwm yn cael eu gweithio, rhaid i'r meddyg teulu locwm ddiweddaru LHW gan gadarnhau na wnaed unrhyw sifftiau locwm o fewn y cyfnod adrodd gofynnol, gan ddefnyddio'r swyddogaeth Sifftiau Allanol, Dim Sifftiau i'w Cofnodi gyda LHW.

**CWESTIWN. A oes angen i ni nodi sifftiau allanol ar gyfer gwaith mewn Practisiau a Reolir?**

**A.** Nac oes - Mae sifftiau locwm a weithir mewn Practisiau a Reolir yn dod o dan gontract y Bwrdd Iechyd ac nid ydynt yn rhan o'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

**CWESTIWN. A oes angen i ni nodi sifftiau allanol ar gyfer gwaith mewn lleoliadau y tu allan i oriau?**

**A.** Nac oes - Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad i nodi Sifftiau y Tu Allan i Oriau. Fodd bynnag, os ydych chi hefyd yn gweithio sifftiau locwm y tu allan i'ch gwaith y Tu Allan i Oriau, bydd angen nodi'r rhain.

**CWESTIWN. Sut mae Shropdoc yn rhan o hyn/a yw Shropdoc yn fy yswirio?**

**A.** Nid oes gofyniad i nodi sifftiau Shropdoc yn Locum Hub Wales. Fodd bynnag, os byddwch hefyd yn gwneud sifftiau locwm ar wahân i'ch gwaith Shropdoc, bydd angen nodi'r rhain.

**CWESTIWN. A oes angen i mi nodi sifft mewn ysbyty maes?**

**A.** Nac oes - Nid oes gofyniad i nodi sifftiau Ysbyty Maes yn Locum Hub Wales. Fodd bynnag, os byddwch hefyd yn gwneud sifftiau locwm y tu allan i'r lleoliadau hyn, bydd angen eu nodi.

**C. Os, ar ddamwain, na nodir sifft locwm, a yw hyn yn torri'r canllawiau?**

**A.** Mae mecanweithiau'n bodoli yn LHW a fydd yn cyhoeddi hysbysiadau pan na chanfuwyd sifftiau mewn unrhyw fis. Lle nad oes unrhyw sifftiau meddygon teulu locwm yn cael eu gweithio, rhaid i'r meddyg teulu locwm ddiweddaru LHW gan gadarnhau na wnaed unrhyw sifftiau locwm o fewn y cyfnod adrodd gofynnol, gan ddefnyddio'r swyddogaeth Sifftiau Allanol, Dim Sifftiau i'w Cofnodi gyda LHW.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy’n ymwneud ag Atodiad B o Ganllawiau GMPI *‘Gofynion ar gyfer defnyddio Cofrestr Locwm Cymru Gyfan (Yn berthnasol i Gyflawnwyr Meddygol Cyffredinol sy’n gweithio sifftiau locwm)’* i Dîm Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC drwy NWSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk / 01792 860498/0490.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud ag adrannau eraill o'r Canllawiau at Dîm GMPI Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg